Hunter Healthcare

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth






**HYGYRCHEDD:**

Mae’r pecyn briffio hwn hon ar gael mewn fformatau eraill ar gais, megis braille neu brint bras. Cysylltwch â Rhiannon Smith yn rsmith@hunter-healthcare.com.

# Aelod Cofrestredig o’r Cyngor

## Pecyn ymgeisydd

Dyddiad cau 12:00 canol dydd ar 17 Hydref 2024



# Croeso

## Gwella'r ffordd rydym yn rheoleiddio



Ni yw'r rheolydd annibynnol ar gyfer mwy na 826,000 o nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Rydym am wella sut rydym yn amddiffyn y cyhoedd drwy gefnogi gofal nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb.

Rydym mewn cyfnod o her a newid. Rydym yn mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd yn yr adolygiad annibynnol o'n diwylliant ac rydym wedi ymrwymo i wella ein heffeithiolrwydd fel rheolydd wrth i ni wrando ar y pryderon hynny a dysgu oddi wrthynt.

Rydym wedi derbyn holl argymhellion yr adolygiad Diwylliant Annibynnol gan Nazir Afzal a Rise Associates ac rydym yn benderfynol y bydd hwn yn drobwynt i'n sefydliad. Mae'n bwysig nawr ein bod yn gweithio'n agos gyda'r rhai sy'n gweithio yn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i gyflawni rhaglen o newid sydd wedi'i gwreiddio yn argymhellion yr adolygiad Diwylliant Annibynnol.

Rydym yn gwneud buddsoddiadau sylweddol mewn addasrwydd i ymarfer er mwyn gwella amseroldeb ac ansawdd ein penderfyniadau. Rydym yn canolbwyntio ar newid ein diwylliant i ddod yn sefydliad dysgu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn addas ar gyfer y dyfodol ac sy'n cynnig amgylchedd lle gall pob cydweithiwr ffynnu.

Rydym yn chwilio am weithiwr proffesiynol sydd ar ein cofrestr ar hyn o bryd a all ddod â phrofiad lefel uwch mewn arwain neu reoli newid diwylliant a/neu ddatblygiad sefydliadol.

Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan y rhai sydd hefyd yn gallu dod â sgiliau sylweddol mewn meysydd megis arwain ar bolisi ac ymarfer o ran diogelu ac amddiffyn pobl; uwch arweinyddiaeth mewn addysg uwch; neu uwch arweinyddiaeth mewn gwasanaethau nyrsio neu ofal cymdeithasol yn y gymuned.

Rydym am i'r Cyngor adlewyrchu ein cymdeithas yn ei holl amrywiaeth a bod yn ymwybodol o anghenion y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a'r gweithwyr proffesiynol rydym yn eu rheoleiddio. Nid yw aelodaeth gofrestredig bresennol y Cyngor yn adlewyrchu amrywiaeth cofrestr yr NMC felly rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan bobl sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd cywir o gymunedau Du a lleiafrifoedd ethnig.

Byddwch yn ymuno â Chyngor sy'n unedig yn ein hymrwymiad i wella sut rydym yn amddiffyn y cyhoedd. Rhaid i'n gwerthoedd – sef bod yn deg, yn garedig, yn gydweithredol, ac yn uchelgeisiol – fod yn sail i bopeth a wnawn.

Os oes gennych y rhinweddau, yr angerdd a'r ymrwymiad sydd eu hangen arnom i'n helpu i ddod yn rheolydd gwell; rwy'n gobeithio y byddwch am ymuno â ni.

**Syr David Warren**
Cadeirydd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Ynglŷn â ni

Rydym yn gorff cyhoeddus statudol sy'n atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor.

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) yn goruchwylio ein gwaith ac yn adolygu ein perfformiad bob blwyddyn. Rydym hefyd yn Elusen sydd wedi'i chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban gyda Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) (SC038362).

## Ein rôl

Mae ein hamcanion statudol, sydd hefyd yn amcanion elusennol, wedi'u nodi yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd). Ein hamcan trosfwaol yw **diogelu'r cyhoedd** drwy:

- amddiffyn, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd;
- hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth; a
- hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau o'r proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth.

## Llunio'r dyfodol

Cafodd ein **Strategaeth 2020-2025** ei chynhyrchu ar y cyd â'r cyhoedd, y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio a'n partneriaid ac mae'n seiliedig ar dair thema allweddol: Rheoleiddio, Cefnogi, Dylanwadu.

Mae'r Cyngor yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni ein strategaeth uchelgeisiol ac yn helpu i ymgorffori newid cynaliadwy yn y sefydliad.




## Sut rydym yn rheoleiddio

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Rydym yn gosod ac yn hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr ac yn sicrhau ansawdd eu rhaglenni addysg. Rydym yn cynnal cywirdeb y gofrestr o'r rhai sy'n gymwys i ymarfer. Ac rydym yn ymchwilio i bryderon ynghylch gweithwyr proffesiynol – rhywbeth sy'n effeithio ar ychydig iawn o bobl ar ein cofrestr bob blwyddyn.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaoedd gweithwyr proffesiynol, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarfer a mynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu.

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â phryderon cyffredin, rhannu ein data, mewnwelediad a dysg, i **ddylanwadu** a llywio penderfyniadau a helpu i ysgogi gwelliant mewn iechyd a gofal cymdeithasol i bobl a chymunedau.



# Y Cyngor

Y Cyngor yw corff llywodraethu'r NMC. Mae'n gosod y cyfeiriad strategol, yn gwneud penderfyniadau allweddol, ac yn dwyn y Weithrediaeth i gyfrif.

Aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen ac maent yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod yr NMC yn ddiddyled, yn cael ei redeg yn dda ac yn darparu budd cyhoeddus.

Mae'r Cyngor yn cynnwys deuddeg aelod: chwe pherson lleyg a chwe gweithiwr proffesiynol ar ein cofrestr, pob un wedi'i benodi gan y Cyfrin Gyngor.

Mae gennym hefyd gynllun Cymdeithion sy'n anelu at ddarparu cyfleoedd datblygu i'r rhai sydd â photensial ar gyfer y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth am ein Cymdeithion presennol ar gael **yma**. Disgwylir i'r Cadeirydd, aelodau'r Cyngor a Chymdeithion arddangos ein gwerthoedd a chynnal **Cod Ymddygiad y Cyngor** yn seiliedig ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus ('egwyddorion Nolan').

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw, gan gynnal cyfarfodydd cyhoeddus o leiaf chwe gwaith y flwyddyn.

Mae rhagor o wybodaeth am sut mae'r Cyngor yn gweithio a'i aelodaeth bresennol ar gael **yma**.

Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn atebol i'r Cyngor. Cânt eu cefnogi gan dîm Gweithredol sy'n gyfrifol am redeg y sefydliad o ddydd i ddydd. Mae rhagor o wybodaeth am ein tîm Gweithredol ar gael **yma**.

**Newidiadau i'r Cyngor yn y dyfodol**

Mae'r pedair llywodraeth wedi ymrwymo i wneud newidiadau i'n deddfwriaeth a fydd yn golygu bod y Cyngor yn trosglwyddo o'r aelodaeth Anweithredol gyflawn bresennol i gorff llywodraethu sy'n cynnwys aelodau Anweithredol a Gweithredol (model bwrdd unedol). Yn seiliedig ar yr amserlen bresennol, mae'r newid hwn yn debygol o ddigwydd tua diwedd 2025 neu ddechrau 2026.



## Statws elusennol

Fel elusen gofrestredig, rhaid i ni geisio sicrhau bod ein holl waith yn darparu budd cyhoeddus. Fel ymddiriedolwyr yr elusen, aelodau'r Cyngor, gan gynnwys y Cadeirydd, sy'n gyfrifol am sicrhau ein bod yn gwneud hyn.

Rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban wrth wneud penderfyniadau a sicrhau ei fod yn bodloni gofynion adrodd statudol, gan gynnwys adrodd am unrhyw ddigwyddiadau difrifol.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith a'n cynlluniau diweddar ar gael yn y canlynol:

- **Strategaeth 2020-25**
- **Ein gwerthoedd a'n hymddygiadau**
- **Cynllun corfforaethol 2024-26**
- **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24**
- **Adroddiad Addasrwydd i Ymarfer Blynyddol 2023-24**

# Ein cofrestr mewn niferoedd

### Ar 31 Mawrth 2024 roedd:

**765,051** Nyrsys

**44,125** Bydwragedd

**6,361** wedi'u cofrestru'n ddeuol

**10,881** o Gymdeithion nyrsio

# Ein gwerthoedd a'n hymddygiad au

Yr un mor bwysig â'r hyn a wnawn yw sut rydym yn ei wneud, felly mae ein gwerthoedd a'n hymddygiadau'n pennu'r ffordd rydym yn gweithio.

## Rydym yn deg

Rydym yn trin pawb yn deg. Mae tegwch wrth wraidd ein rôl fel rheolydd a chyflogwr tryloyw y gellir ymddiried ynddo.

## Rydym yn garedig

Rydym yn ymddwyn yn garedig ac mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi pobl, eu dirnadaeth, eu sefyllfaoedd a'u profiadau.

## Rydym yn gydweithredol

Rydym yn gwerthfawrogi ein perthnasoedd (o fewn a thu allan i'r NMC) ac yn cydnabod ein bod ar ein gorau pan ydym yn gweithio'n dda gydag eraill.

## Rydym yn uchelgeisiol

Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith. Rydym yn agored i ffyrdd newydd o weithio ac rydym bob amser yn ceisio gwneud ein gorau dros y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, y cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu a'n gilydd.


Personal Child Health Record
Please keep this book safe

# Beth mae aelod o'r Cyngor yn ei wneud?

Fel aelod o'r Cyngor rhaid i chi fod yn ymrwymedig i ddiogelu'r cyhoedd ac i'n pwrpas statudol.

Rhaid i chi fod yn ddigon dewr i godi llais a herio, gan weithio ar y cyd â chyd-aelodau a chyfathrebu'n hyderus o fewn a thu allan i'r sefydliad. Rôl aelodau'r Cyngor yw:

**Darparu cyfeiriad strategol ar gyfer yr NMC:**

- Cymryd cyfrifoldeb am strategaeth gorfforaethol, cynlluniau busnes a chyllidebau a datblygu'r fframwaith ar gyfer adolygu polisi a pherfformiad gweithredol.
- Goruchwylio datblygiad polisi a gwneud penderfyniadau polisi mawr.

**Sicrhau ac adolygu effeithiolrwydd yr NMC wrth gyflawni ei ddiben statudol:**

- Sicrhau bod ffocws y sefydliad ar ddiben craidd diogelu'r cyhoedd.
- Gwerthuso effeithiolrwydd y Cyngor wrth gyflawni ei ddiben statudol.

**Darparu trosolwg o weithrediadau'r NMC, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol:**

- Dal y Weithrediaeth i gyfrif am reoli gweithrediadau o ddydd i ddydd, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn briodol.
- Dal y Weithrediaeth i gyfrif am sicrhau bod gweithrediadau'r NMC yn cael eu trefnu mewn ffyrdd sy'n hwyluso cyflawni swyddogaethau craidd yn y modd mwyaf effeithiol, a bod hyn yn cael ei adolygu wrth i amgylchiadau newid.



**Monitro perthnasoedd allanol yr NMC, i sicrhau bod hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid yn cael ei gynnal:**

- Sicrhau bod gan yr NMC fesurau ar waith i ymgysylltu â rhanddeiliaid a sefydliadau perthnasol eraill ac asiantaethau'r llywodraeth ym mhedair gwlad y DU.

- Pan fo'n briodol, gweithredu'n bersonol i gefnogi a hyrwyddo buddiannau'r NMC yn allanol.

**Cyflawni'r holl gyfrifoldebau fel ymddiriedolwyr elusen i'r NMC:**

- Sicrhau bod yr NMC yn gweithredu bob amser o fewn fframwaith y gyfraith elusennau, ac yn cyflawni ei ddibenion elusennol.

- Cymryd cyfrifoldeb am yr holl swyddogaethau priodol, gan gynnwys rheoli eiddo; cyflogi staff; iechyd a diogelwch; a chydraddoldeb ac amrywiaeth.

**Byddwn yn cynnal digwyddiad ar-lein ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn dysgu rhagor am rolau anweithredol yn yr NMC. Byddwn yn postio manylion ar ein tudalen digwyddiadau ac ar ein cyfryngau cymdeithasol.**

# Y rôl

**Rydym yn chwilio am un aelod cofrestredig o'r Cyngor. Gall ymgeiswyr fyw neu weithio yn unrhyw un o wledydd Cymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod ei aelodaeth yn adlewyrchu amrywiaeth y cyhoedd y mae'n eu gwasanaethu a'r gweithwyr proffesiynol y mae'n eu rheoleiddio. Gwyddom y bydd cael lleisiau, safbwyntiau, gwybodaeth a mewnwelediad gwahanol yn ein helpu i wneud penderfyniadau gwell.

Nid yw aelodaeth gofrestredig bresennol y Cyngor yn adlewyrchu amrywiaeth cofrestr yr NMC o ran hil/ethnigrwydd. Rydym yn awyddus i glywed gan bobl sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd cywir o bob cefndir, yn arbennig y rheini o gymunedau Du a lleiafrifoedd ethnig. Os bydd angen unrhyw help neu addasiadau arnoch i gyflawni'r rôl, rydym yn hapus i ddarparu'r cymorth a'r help sydd eu hangen arnoch.

Yn unol â'r ymrwymiadau hyn, bydd y Panel Dethol yn gweithredu'n gadarnhaol. Mae hyn yn golygu, lle mae'r Panel Dethol yn fodlon bod dau neu fwy o ymgeiswyr o'r un teilyngdod, gan ystyried aelodaeth bresennol y Cyngor, y gall benderfynu argymell ymgeisydd â nodwedd warchodedig.

### Cymhwysedd

Bydd angen i chi wirio a ydych yn gymwys i gael eich penodi ac nad ydych wedi'ch anghymhwyso. Gellir dod o hyd i'r rhesymau dros anghymhwyso rhag penodi i'r Cyngor yn y **ffurflen wybodaeth**.

Rhaid i chi ddal cofrestriad cyfredol gyda'r NMC heb unrhyw gyfyngiad ar eich ymarfer a bod yn fodlon cynnal eich cofrestriad tra'n gwasanaethu ar y Cyngor, gan gynnwys ail-ddilysu yn ôl yr angen.

Os daw eich cofrestriad gyda'r NMC i ben ar unrhyw adeg yn ystod eich cyfnod yn y swydd, ni fyddwch yn gallu parhau fel aelod o'r Cyngor mwyach. Wrth ystyried a ydych am wneud cais am y rôl hon, bydd angen i chi felly ymrwymo i gynnal eich cofrestriad drwy gydol tymor llawn eich penodiad.

### Gwrthdaro Buddiannau

Fel rhan o'ch cais gofynnir i chi ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau neu deyrngarwch gwirioneddol neu bosibl y gellid ei ystyried yn berthnasol i'r NMC. Darllenwch y canllawiau **yma**.

### Asesu cymwyseddau

Byddwn yn defnyddio'r cymwyseddau canlynol i asesu ymgeiswyr.

Bydd y rhain yn eich helpu i benderfynu a oes gennych y rhinweddau cywir i ymuno â'n Cyngor.

Bydd angen i chi esbonio yn eich datganiad ategol sut mae eich arbenigedd, profiad, gwybodaeth a sgiliau yn cyfateb i bob un o'r **cymwyseddau** (gan gynnwys y cymhwysedd allweddol).

Byddwn yn asesu'ch cais yn erbyn y cymwyseddau **ar bob cam o'r broses ddethol**.

Bydd angen i chi arddangos eich bod yn bodloni'r holl gymwyseddau isod. Sylwch y gallwch ddarparu tystiolaeth o'r cymwyseddau hyn o unrhyw agwedd ar eich bywyd, profiadau a gweithgareddau, nid dim ond trwy eich rolau proffesiynol neu waith.

1. Deallusrwydd o, ac ymrwymiad i, amddiffyn y cyhoedd trwy reoleiddio proffesiynol.

2. Gwerthfawrogiad clir o'r rôl anweithredol, a sut y dylid dal swyddogion gweithredol i gyfrif drwy her adeiladol.

3. Y gallu i gyfrannu at sefydliad ar lefel strategol, gan arddangos sgiliau dadansoddi a barn gadarn.

4. Y gallu i ddeall a chyfrannu at y materion trefniadol a busnes y mae'r Cyngor yn delio â nhw.

5. Y gallu i weithio'n llwyddiannus fel rhan o dîm, gan barchu a gwrando ar eraill, ennill parch cydweithwyr, a chyfrannu'n adeiladol at brosesau gwneud penderfyniadau ar y cyd.

6. Dealltwriaeth o rôl ymddiriedolwr elusen, a'r gallu i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol.

7. Ymrwymiad personol i lywodraethu da a chynnal egwyddorion cydnabyddedig bywyd cyhoeddus.

### Cymhwysedd allweddol:

8. Profiad lefel uwch o arwain neu reoli newid diwylliant a/neu ddatblygiad sefydliadol.

### Sgiliau ychwanegol:

Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan ymgeiswyr sy'n bodloni'r cymwyseddau a all hefyd ddod â sgiliau mewn meysydd megis:

- arwain ar bolisi ac arfer o ran diogelu ac amddiffyn pobl ar lefelau sefydliadol ac amlasiantaethol; a/neu

- uwch arweinyddiaeth mewn addysg uwch; a/neu

- uwch arweinyddiaeth mewn gwasanaethau nyrsio yn y gymuned a/neu ofal cymdeithasol

**Os gallwch ddod â sgiliau yn unrhyw un o'r meysydd hyn, amlygwch hyn yn eich datganiad sy'n nodi pam eich bod yn addas ar gyfer y rôl.**

# Amser a thâl

## Ymrwymiad amser

**Rydym yn rhagweld ymrwymiad amser o dri diwrnod y mis.**

Ond rydym am fod yn onest ac yn realistig oherwydd efallai y bydd angen mwy o amser wrth i chi setlo yn y rôl ac yn dibynnu ar y materion sy'n ein hwynebu. Mae'r ymrwymiad amser hwn yn cynnwys paratoi ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau ac ystod eang o weithgareddau eraill. Os byddwch yn gwneud cais, bydd disgwyl i chi gadarnhau eich bod yn gallu ac yn fodlon cyflawni'r ymrwymiad amser hwn.

Cynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd a Seminarau'r Cyngor yn Llundain neu ar-lein, ond gellir cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau hefyd yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Cymru, a rhannau eraill o Loegr. Mae amserlen cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau ar gyfer 2025-2026 i'w gweld **yma**.

Mae'n bwysig eich bod ar gael i fynychu cyfarfodydd y Cyngor a Seminarau.

## Tâl

Y lwfans y cytunwyd arno ar hyn o bryd ar gyfer aelodau'r Cyngor yw £15,166 y flwyddyn.

Mae lwfansau'n amodol ar ddidyniadau cymwys ar gyfer treth incwm TWE a chyfraniadau yswiriant gwladol.

Byddwch hefyd yn cael eich ad-dalu am gostau teithio rhesymol a threuliau parod a dynnir ar fusnes yr NMC, yn unol â pholisi teithio a threuliau'r Cyngor.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn gwneud unrhyw addasiadau rhesymol ar gyfer teithio a llety i aelodau'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys addasiadau ar gyfer aelodau'r Cyngor sy'n feichiog neu sydd ag anabledd dros dro neu barhaol.



### Am faint o amser y caf fy mhenodi?

Bydd y tymor cychwynnol am gyfnod o dair blynedd.

Fel y crybwyllwyd, mae cynigion diwygio rheoleiddiol disgwyliedig y llywodraeth yn golygu bod y Cyngor presennol ar fin newid i fodel bwrdd unedol, yn fwyaf tebygol ar ddiwedd 2025 neu ddechrau 2026. Efallai y bydd angen rhai newidiadau i aelodaeth y Cyngor o ganlyniad ac efallai y bydd eich tymor cychwynnol yn newid. Yn amodol ar ddiwygio rheoleiddio a pherfformiad boddhaol, efallai y byddwch yn gymwys i gael eich ailbenodi am dymor pellach.

### A fyddaf yn derbyn hyfforddiant a datblygiad?

Mae pob aelod newydd a benodir gan y Cyngor yn cael cyflwyniad cynhwysfawr i waith y Cyngor a'r NMC, yn ogystal â chyfleoedd parhaus ar gyfer datblygu yn unigol ac ar y cyd.

.



# Sut i wneud cais

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **12:00 canol dydd, dydd Iau 17 Hydref 2024**.

Bydd angen i chi gwblhau a chyflwyno:

- Datganiad ar pam eich bod yn addas ar gyfer y rôl (dim mwy na dwy dudalen). Gwnewch yn si r eich bod yn dweud sut rydych yn bodloni'r cymwyseddau a nodir ar dudalen 13.
- Eich CV (dim mwy na thair tudalen).
- **Ffurflen wybodaeth** wedi'i chwblhau: rydym yn eich annog yn gryf i lenwi adran cydraddoldeb ac amrywiaeth y ffurflen os gwelwch yn dda.
- Dylid anfon pob cais at: **applications@hunter-healthcare.com**. Bydd pob cais yn cael ei gydnabod.
- Mae'n ddrwg gennym ond ni fyddwn yn gallu ystyried ceisiadau anghyflawn neu geisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr uchod neu os hoffech ragor o wybodaeth am y rôl a'r broses ddethol, cysylltwch â **rsmith@Hunter-Healthcare.com**.

## Y broses ddethol

Rydym wedi ymrwymo i brosesau dethol sy'n hygyrch, yn deg, yn dryloyw, yn seiliedig ar deilyngdod ac yn rhydd rhag rhagfarn a gwahaniaethu anghyfreithlon.

Mae'r Cyngor wedi penodi Panel Dethol i gynnal y broses. Bydd y broses ddethol yn cael ei harwain gan dystiolaeth ac ar bob cam byddwch yn cael eich asesu yn erbyn y cymwyseddau a nodir ar dudalen 13.

Bydd y Panel yn gwneud argymhelliad ar gyfer penodi i'r Cyfrin Gyngor. Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gyfrifol am gynghori'r Cyfrin Gyngor ynghylch a all fod yn hyderus yn ein proses ddethol, yn seiliedig ar wybodaeth ddienw am ein proses.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, byddwn yn talu costau teithio a llety rhesymol. Byddwn yn darparu unrhyw addasiadau rhesymol ar gyfer teithio a llety i ymgeiswyr sy'n feichiog neu sydd ag anabledd dros dro neu barhaol.



### Aelodau'r Panel Dethol

Aelodau'r Panel Dethol yw:

- **Syr David Warren**
  Cadeirydd y Cyngor (Lleyg)
- **Flo Panel-Coates**
  Aelod Cofrestredig o'r Cyngor
- **Lindsay Foyster**
  Aelod lleyg o'r Cyngor
- **Radhika Seth**
  Aelod Annibynnol

Os hoffech sgwrs anffurfiol gyda chydweithiwr yn y Cyngor, cysylltwch â Jen Daniel **jennifer.daniel@nmc-uk.org**.

## Crynodeb o ddyddiadau allweddol

| | |
|---|---|
| Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw | 17 Hydref 2024 |
| Llunio rhestr hir | 15 Tachwedd 2024 |
| Llunio rhestr fer | 13 Rhagfyr 2024 |
| Cyfweliadau | 22 Ionawr 2025 |
| Penodi/cynefino | 1 Ebrill 2025 |

# Amserlen

| Dyddiadau allweddol | Cam |
|---|---|
| **Dydd Mawrth 10 Medi 2024** | **Ceisiadau ar agor** |
| **Dydd Llun 23 Medi 2024** | Digwyddiad ar-lein i'r rhai sydd â diddordeb mewn dysgu rhagor am rolau anweithredol yn yr NMC |
| **Hanner dydd, dydd Iau 17 Hydref 2024** | **Ceisiadau'n cau**<br>Bydd ceisiadau ond yn ddilys os byddwn yn derbyn y canlynol i gyd:<br>• Eich datganiad addasrwydd ar gyfer y rôl<br>• Eich CV<br>• **Ffurflen wybodaeth** wedi'i chwblhau: Rydym yn annog ymgeiswyr yn gryf i gwblhau a dychwelyd ein ffurflen monitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.<br>Sicrhewch eich bod yn cyflwyno'ch cais erbyn 12.00 hanner dydd, gan na allwn ystyried ceisiadau hwyr.<br>Ar y pwynt hwn, byddwn yn gwirio pob cais dilys:<br>• I gadarnhau cymhwysedd;<br>• I gadarnhau nad yw ymgeiswyr wedi'u hanghymhwyso o dan y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Cyfansoddiad) a chyfraith elusennau; ac<br>• I nodi unrhyw **wrthdaro buddiannau** posibl y gallai fod angen eu trafod. |
| **18 Hydref-7 Tachwedd 2024** | **Y cam sifftio cychwynnol**<br>Bydd Hunter Healthcare yn cynnal asesiad cychwynnol o bob cais yn erbyn y cymwyseddau. |
| **Dydd Gwener 15 Tachwedd 2024** | **Cam llunio rhestr hir**<br>Mae'r Panel Dethol yn adolygu'r holl geisiadau a'r asesiadau rhagarweiniol gan yr Ymgynghorwyr Chwilio yn erbyn y cymwyseddau.<br>Yna bydd y Panel Dethol yn penderfynu pa ymgeiswyr fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad rhagarweiniol gyda'r Ymgynghorwyr Chwilio. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad y cam hwn cyn gynted ag y gallwn. |
| **Dydd Llun 18 Tachwedd i ddydd Iau 5 Rhagfyr 2024** | **Y cam cyfweld rhagarweiniol**<br>Mae'r Ymgynghorwyr Chwilio'n cynnal cyfweliadau rhagarweiniol gyda'r holl ymgeiswyr ar y rhestr hir yn erbyn y cymwyseddau. Bydd cyfweliadau rhagarweiniol yn cael eu cynnal yn rhithwir. |
| **Dydd Gwener 13 Rhagfyr 2024** | **Cam llunio rhestr fer**<br>Mae'r Panel Dethol yn adolygu canlyniad yr holl gyfweliadau rhagarweiniol yn erbyn y cymwyseddau. Yna bydd y Panel Dethol yn penderfynu ar y rhestr fer o ymgeiswyr a fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad terfynol. |

| Dyddiadau allweddol | Cam |
|---|---|
| **Dydd Llun 16 Rhagfyr 2024 i ddydd Mawrth 14 Ionawr 2025** | **Gwiriadau cyn cyfweliad**<br>Byddwn yn:<br>• Cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar eich hanes proffesiynol a phersonol (gan gynnwys gwiriadau cyfryngau cymdeithasol); a<br>• Cymryd tystlythyrau ysgrifenedig gan eich canolwyr enwebedig.<br>**Camau terfynol**<br>Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, cewch gyfle am drafodaeth unigol gyda'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro. Ymdrinnir â rhestr safonol o bynciau. Sylwch nad yw'r drafodaeth gyda'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro yn ffurfio unrhyw ran o'r broses ddethol. Byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweliad terfynol. |
| **Dydd Mercher 22 Ionawr 2025** | **Cyfweliad terfynol**<br>Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal yn bersonol yn Llundain. Bydd cyfweliad y Panel Dethol yn parhau tua 60 munud a bydd yn canolbwyntio ar gwestiynau yn erbyn y cymwyseddau. Gofynnir i chi roi cyflwyniad ar bwnc a ddewisir gan y Panel a byddwch yn cael rhybudd ymlaen llaw o hyn.<br>Yn dilyn cyfweliadau, bydd y Panel Dethol yn penderfynu pwy ddylai gael ei argymell i'r Cyfrin Gyngor i'w benodi. |
| **Mawrth 2025** | **Penderfyniad y Cyfrin Gyngor ar benodi**<br>Os byddwch yn llwyddiannus, bydd y Cyfrin Gyngor yn ysgrifennu atoch yn cynnig y penodiad. Byddwn yn hysbysu ymgeiswyr aflwyddiannus cyn gynted â phosibl a byddwn yn rhoi adborth os gofynnir amdano. |
| **1 Ebrill 2025** | **Penodi/cynefino** |

## Cwynion

Rydym wedi ymrwymo i brosesau a gweithdrefnau sy'n deg, yn dryloyw ac yn rhydd rhag gwahaniaethu.

Bydd cwynion am unrhyw agwedd ar y broses benodi ar gyfer rolau aelodau'r Cyngor yn cael eu monitro, eu cofnodi, a'u trin yn brydlon. Os ydych yn anfodlon ar unrhyw agwedd o'r broses benodi, byddwn yn ceisio datrys eich pryderon yn gynnar a, beth bynnag, o fewn mis i'r hysbysiad o benderfyniadau'r Cyfrin Gyngor. Os oes gennych g yn, gallwch wneud hyn yn ysgrifenedig, drwy e-bost at Ysgrifennydd y Cyngor **matthew.hayday@nmc-uk.org**.

Bydd eich cwyn yn cael ei chydnabod o fewn dau ddiwrnod gwaith ag amser ymateb targed o 20 diwrnod gwaith.

Yn dilyn ymchwiliad gan yr Ysgrifennydd, os ydych yn dal yn anfodlon, gallwch ofyn i'r Ysgrifennydd atgyfeirio'ch cwyn at Gadeirydd y Panel Dethol i'w hystyried ac ymateb iddi. Bydd eich cwyn yn cael ei chydnabod o fewn dau ddiwrnod gwaith ag amser ymateb targed o 20 diwrnod gwaith. Os ydych yn dal yn anfodlon ar yr ymateb ar ôl i chi fod drwy'r llwybrau hyn, gallwch godi eich pryder gyda Swyddfa'r Cyfrin Gyngor yn **enquiries@pco.gov.uk**.

nmc
Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth


Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
23 Portland Place
Llundain W1B 1PZ

**www.nmc.org.uk**

@nmcnews









Floor 2, Berkshire House
168-173 High Holborn, London WC1V 7AA

T: 020 7935 4570
E: enquiries@hunter-healthcare.com